Elizabeth Collins

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Fy enw i yw Lizzie, rwy'n 27 oed ac yn siaradwr Cymraeg balch sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd. Rwyf wedi magu'r dewrder i ymgeisio am y cyfle hwn i ymuno â Bwrdd CGGC. Er nad wyf wedi bod yn Ymddiriedolwr o'r blaen, mae gennyf brofiad o weithio'n agos gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig The Wallich, gan gynorthwyo Ysgrifennydd y cwmni a chydlynu'r Tîm Gweithredol.

Mae gennyf sgiliau yn y maes llywodraethu, ynghyd â'r ddawn o roi sylw i fanylion a chydlynu a rheoli cyfarfodydd, ac rwy'n datrys problemau mewn modd sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau. Rwyf wedi bod yn gweithio yn y sector digartrefedd am y ddwy flynedd ddiwethaf. Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun yr effaith bositif y mae gwirfoddoli yn ei chael ar bobl o fewn ein cymuned. Mae'r amrywiaeth eang o fudiadau gwirfoddol ymroddedig a thosturiol ar hyd a lled Cymru, â chenhadaeth i gynorthwyo a chefnogi newid i gymunedau ar yr ymylon, yn fy ysgogi.

Byddai bod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CGGC yn brofiad cyffrous lle byddem yn ceisio dod â phersbectif creadigol a lliwgar. Rwy'n barod i neidio i mewn a dangos fy ymrwymiad i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.